**IS-BWYLLGOR YMGYNGHOROL MARCHNADOEDD A FFEIRIAU ARDAL DWYFOR 27-01-2012**

**Yn bresennol**: **Y Cynghorwyr/Councillors:** Selwyn Griffiths, Ieuan Roberts, Sion Selwyn Roberts, Guto Rhys Tomos a Robert J. Wright. .

**Hefyd yn bresennol**: Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Robert J. Wright yn gadeirydd am y flwyddyn 2011/12**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd am y flwyddyn 2011/12**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Cynrychiolwyr Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Marchnad, sef: Richard Turner, John Woodward ac Ian Grundy

**4. CROESO**

Estynnwyd croeso i'r Arolygydd Marchnadoedd, Phillip Pritchard a oedd yn mynychu'r cyfarfod am y tro cyntaf.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, 2009,  fel rhai cywir.

**6. MARCHNADOEDD A FFEIRIAU DWYFOR**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu.

b) Ymhelaethodd y Rheolwr ar y ffioedd presennol o safbwynt marchnadoedd, sef :- £1:00 y droedfedd blaen ar  gyfer pob stondin rhwng Mehefin ac Awst a 50c y droedfedd blaen ar bob achlysur arall. Mae masnachwyr achlysurol yn talu tair gwaith y ffioedd yma. Nid oedd newid i'r ffioedd presennol  yn cael ei argymell.

c) Fodd bynnag, awgrymwyd newidiadau gyda'r Farchnad ym Mhorthmadog trwy ddiddymu'r angen i fasnachwyr arwyddo a thalu ar gyfer mynychu'r farchnad am y tymor yn ei gyfanrwydd, hyd yn oed ar yr adegau pan nad ydynt yn bresennol.

ch) Nododd y Rheolwr bod marchnadoedd a ffeiriau Dwyfor yn parhau i gyfrannu at yr economi leol, ond mynegwyd pryder ynglŷn â'r gostyngiad sylweddol yn nifer y stondinau yn Ffair Cricieth. Ychydig flynyddoedd yn ôl 'roedd yn agos i 150 o stondinau yn y ffair, ond yn 2011 'roedd y cyfanswm wedi gostwng i ychydig dros 50.

Ychwanegodd fod bwriad i hysbysebu'r ffair yn well eleni trwy osod posteri mewn mannau amlwg ychydig wythnosau cyn y ffeiriau.

d) Adroddodd y Rheolwr yn unigol ar sefyllfaoedd y marchnadoedd a'r ffeiriau canlynol:
   - Pwllheli (Mercher)
   - Porthmadog
   - Pwllheli (Sul)
   - Ffair Cricieth
   - Ffair Pwllheli

dd) O safbwynt ffair bleser, esboniodd fod yr Uned Drwyddedu yn anfon ffurflenni tendr yn flynyddol i 3 chwmni sydd wedi dangos diddordeb mewn cynnal ffeiriau yn yr Ardal. Gofynnir am ddyfynbris ar gyfer chwe ffair, a rhoddir hawl i'r cwmni gyda'r pris uchaf i osod ffair bleser ar y safle penodol.

Yn sgil hyn, nid oes rheolaeth gan yr Uned Drwyddedu ar y lefel ffi a dderbynnir bob blwyddyn,

Nodwyd bod angen newid lleoliad ffair Pwllheli eleni, ac yn dilyn ymholiadau, ystyriwyd mai rhan gefn o'r maes parcio ar Ffordd Caerdydd fyddai'n fwyaf addas. 'Roedd yr Adran Drafnidiaeth a chwmni Lidl, sydd gydag eiddo'n agos i'r safle, yn derbyn hyn.

Nododd aelod y dylid rhoi ystyriaeth i farn trigolion cyfagos hefyd.

e) Mewn ymateb i ymholiadau gan aelodau nodwyd:

   - Mai trefn hanesyddol yw'r unig reswm dros gynnal y farchnad ym Mhorthmadog am 9 mis y flwyddyn yn unig a bod hyn yn ymddangos yn dderbyniol gan fasnachwyr a'r cyhoedd.
   - Bod stondinwyr yn anfodlon symud o'u man arferol hyd yn oed pan mae'r marchnadoedd yn weddol dawel.
   - Byddai'n anodd newid dyddiadau Ffair Cricieth oherwydd bod y dyddiadau wedi eu nodi fel rhan draddodiadol o galendr y stondinwyr.
   - Bod yr amrywiaeth o stondinau a geir ym marchnadoedd Dwyfor yn galondid a bod yr ymwelwyr hefyd yn canmol.

f) Nododd y Rheolwr Trwyddedu ymhellach fod marchnad Sul Pwllheli, sy'n rhedeg ers pedair blynedd, wedi cymryd ei lle yng ngweithgareddau wythnosol y dref. Ychwanegodd fod y masnachwyr yn awyddus i ddileu amod oedd yn gwahardd stondin rhag gwerthu diod poeth.

Yn ogystal, 'roedd y stondinwyr yn gofyn am hawl i gynnal y farchnad ar ddyddiadau ychwanegol, sef dydd Sul a dydd Llun y Pasg, Sul yr Ŵyl Banc ym Mai ynghyd â'r Sul olaf ym mis Hydref. Byddai hyn yn ychwanegol i'r tymor presennol sy'n rhedeg o fis Mehefin hyd ddiwedd Medi.

Nodwyd y byddai angen cael caniatâd yr Adran Drafnidiaeth cyn cadarnhau hyn.

**PENDERFYNWYD:**

**a) Bod y ffioedd presennol ar gyfer stondinau marchnadoedd, sef : £1:00 y droedfedd blaen ar gyfer pob stondin rhwng Mehefin ac Awst a 50c y droedfedd blaen ar bob achlysur arall, gyda masnachwyr achlysurol yn talu tair gwaith y ffioedd yma, yn aros heb unrhyw newid ar gyfer 2012;**

**b) Bod y ffioedd ar gyfer stondinau yn Ffair Cricieth, sef £5 am y tair medr blaen cyntaf, a £5 am bob medr ychwanegol yn aros heb unrhyw newid ar gyfer 2012;**

**c) Dileu'r drefn bresennol ym Marchnad Porthmadog lle mae angen i fasnachwyr arwyddo a thalu am y tymor yn ei gyfanrwydd;**

**ch) Cyflwyno trefn newydd ym  Marchnad Porthmadog fel bod masnachwyr yn arwyddo am y tymor cyfan er mwyn gwarchod eu llecyn, ond ni fydd yn ofynnol iddynt dalu pan nad ydynt yn bresennol yn ystod Ebrill, Tachwedd a Rhagfyr;**

**d) Bod amod, sy'n gwahardd cael stondin i werthu diod poeth ym Marchnad Sul Pwllheli yn parhau mewn grym;**

**dd) Bod Ffair Pwllheli'n cael ei chynnal ar ran cefn maes parcio Ffordd Caerdydd yn 2012;**

**e) Cefnogi cais i gynnal Marchnad Sul Pwllheli,  ar y dyddiadau ychwanegol canlynol: Dydd Sul a Dydd Llun y Pasg, y ddwy ŵyl banc ym mis Mai ynghyd â'r Sul olaf ym mis Hydref.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:15pm a daeth i ben am 3pm